



Gofal a Thrwsio  
Sir Pen-y-bont ar Ogwr

# Gwasanaeth Adre o'r Ysbyty

Cysylltu iechyd a thai:  
Canlyniadau gwell i bobl hŷn  
Mai 2018



# Yma bob amser i helpu

Mae Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn asiantaeth annibynnol gwella cartrefi gydag amcanion elusennol ac mae'n gorff dim-er-elw. Caiff gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru a'i gyllido'n lleol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithredu fel gwasanaeth a gaiff ei 'arwain gan broblemau ac sy'n canolbwyntio ar y person' drwy weithwyr achos ymweld â chartrefi sy'n darparu asesiad Cartref Iach a manyleb dechnegol a goruchwylio addasiadau cartref, gwaith trwsio ac adnewyddu a ddarperir gan swyddogion technegol cymwys. Mae ei dîm mewnol gwasanaethau ymarferol yn rhoi opsiwn dibynadwy, gwerth da a phroffesiynol ar gyfer gwaith adeiladu. Ymddiriedir hefyd mewn technegwyr mewnol i asesu a gosod Teleofal.


Mae gan yr asiantaeth hefyd restr gymeradwy o gontractwyr diogel seiliedig yn y gymuned. Y brif nod yw cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hun yn fwy cysurus a diogel. Mae'r gwerthoedd craidd wedi eu seilio ar urddas, parch a grymuso yn darparu gwasanaeth pwrpasol sy'n ei chael yn iawn i'r cleient unigol.

Mae'r gwasanaeth 'Adre o'r Ysbyty' yn dod â'r ethos gwasanaeth yma'n agos at wely ysbyty, mae'n hygyrch i gleifion, gofalwyr a theulu a chaiff ei ddeall yn eang o ran ei effaith gadarnhaol ar anghenion iechyd gan glinigwyr, nyrsus

a swyddogion ailalluogi. Mae'n unigryw oherwydd ei fod yn agos at gynllunio rhyddhau o ysbyty, gan roi cymorth i ryddhau'n ddiogel, cyflenwi cyflym, datrys problem pwrpasol a hyder cytundeb wyneb-i-wyneb rhwng y GIG, claf/gofalwr a gwasanaethau tai am lesiant hirdymor.

Bu'r gwasanaeth Adre o'r Ysbyty a ddarperir gan Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr, yn gweithredu allan o Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gweithredu ers 2014.

Mae wedi tyfu o gynllun peilot 3 awr yr wythnos i wasanaeth 5 diwrnod yr wythnos a gyllidir yn llawn. Mae'n gweithredu ar sail gofal iechyd darbodus, ataliol, gan dderbyn mai'r un bobl yw cleifion a chleientiaid. Felly gall pobl hŷn gael eu rhyddhau'n ddiogel ac yn gynharach, gall clinigwyr a nyrsys wneud mwy ar gyfer llesiant pobl hŷn a gall Gofal a Thrwsio eu helpu i fyw'n annibynnol.



Cleifion a  
Helpwyd 2014 - 17  
4,500

## Cost a chapasiti gwasanaeth 2016-17

- Uwch Weithiwr Achos Ysbyty (LI/A)
- Gweithiwr Achos Ysbyty (Rh/A)
- Swyddog Cynnal a Chadw (Rh/A)
- Swyddog Cymorth Rhyddhau (Rh/A)
- Swyddog RRAP\* (LI/A)
- Cymhorthydd Gweithiwr Achos (LI/A)
- Therapydd Galwedigaethol (Rh/A)

Cymorth refeniw: **£153,000**

Nifer cleifion/cleientiaid a helpwyd: **1,272**

Nifer cleifion/cleientiaid a gefnogwyd ar gyfer rhyddhad diogel: **1,024**

Gwerth gwaith a gwblhawyd: **£510,000**

Cost gyfartalog gwaith: **£356**

Cost cyfartalog gwasanaeth y cleient: **£527**

Potensial osgoi costau: **£2,987,560**

**Adeniliad cymdeithasol ar fuddsoddiad ar gyfer dyddiau gwely a arbedwyd £5.50 am bob £1 a fuddsoddwyd**

Yn seiliedig ar dybiaethau cymedrol ac ymagwedd cymedrig at arbedion dyddiau gwely, h.y. **arbed 6 diwrnod gwely** ac egwyddorion osgoi cost os y'i gwelir fel potensial ailgyfeirio gellid sicrhau galluedd ychwanegol cyfwerth **â ward 16 gwely**.

\*RRAP - Rhaglen Addasiadau Brys Rhan-gyllidir y swyddog RRAP gan grant Llywodraeth Cymru.

## Canlyniadau gwasanaeth

- Mwy o werthfawrogiad o benderfynyddion amgylcheddol iechyd gwael.
- Cefnogi rhyddhau diogel o'r ysbyty yn cyflymu penderfyniadau cynllunio rhyddhau a gwella llif cleifion.
- Gwella cyfleoedd ar gyfer ataliaeth sylfaenol ac eilaidd.
- Cynorthwyo cleifion hŷn i ddychwelyd adref yn gyflym a gwella adsefydlu ac ailalluogi.
- Rhyddhau gwelyau ar gyfer cynllunio clinigol.
- Cyfleoedd osgoi cost/ailgyfeirio buddsoddiad i'r GIG

## Buddion cost ataliol

Ac ystyried tybiaethau cost NICE ar gyfer aildderbyn, gofal ôl-rhyddhau a codymau cymhleth, e.e. llawdriniaeth cluniau newydd; a thybiaethau cost Cymdeithas Ffisiotherapyddion Siartredig ar gyfer costau ansawdd bywyd, gallai'r buddion cost ychwanegol fod yn:

- Cyfanswm osgoi cost fesul cleient a ryddheir: **£5,800**
- Ar gyfanswm costau gwasanaeth mae budd cost ataliol cyfartalog o **£2,900** am bob claf a ryddheir
- Osgoi cost, pe osgoir cwmp sylweddol ar gyfer dim ond 2% o gleifion: £3,079,764 **£3,079,764**

**Cyfanswm adeniliad cymdeithasol ar fuddsoddiad fesul claf a ryddhawyd £9 am bob £1 a fuddsoddir**

# Mae coed derw cadarn yn tyfu o fês bach

“Yn 1969 cyn cyllido RRAP yn 2002, roedd Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o ddatblygiad Diogelwch Cartref, a wnaeth yn ei dro arwain at gyllid Pwysau Argyfwng yn 1994. Adeiledir partneriaethau ar ‘ymddiriedaeth’, ‘nodau cyffedin’ a ‘hanes o lwyddiant dros flynyddoedd.”



“Buom yn gweithredu'r cynllun pwysau argyfwng ers 1994 i gefnogi rhyddhau pobl hŷn yn amserol o ysbyty. Fodd bynnag roedd y gwasanaeth hwn yn seiliedig yn bendant iawn ar wasanaeth ymatebol, adweithiol ac felly roedd y cyswllt gyda cleifion yn gyfyngedig.

O arolygon cleientiaid teimlwn mai dim ond crafu'r wyneb yr oedden yn nhermau helpu'r cleifion hyn gyda'u hanghenion tai hirdymor. Roedd yn ymddangos fod bwch gwirioneddol mewn darpariaeth gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn yn cael eu rhyddhau o ysbyty, felly datblygwyd y gwasanaeth Adre o'r Ysbyty.

Dros y blynyddoedd mae gwasanaeth Adre o'r Ysbyty yn wirioneddol wedi darbwyllo'r bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol a swyddogion iechyd y gall cael staff Gofal a Thrwsio yn gweithio o'r ysbyty wrth ochr y tîm clinigol wirioneddol wneud gwahaniaeth wrth helpu i gyflymu rhyddhau diogel canfod y datrysiadau cywir i gleifion, gostwng aildderbyniadau a helpu i ryddhau gwelyau ysbyty yn gyflymach.

Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb y trefniadau partneriaeth cryf a syniadau blaengar y bwrdd iechyd, timau awdurdod lleol a staff GIG ac wrth gwrs waith caled ein staff”.

**Rena Sweeney, Prif Swyddog, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr**



## Bod yn wahanol yn gwneud gwahaniaeth

“Roeddwn wedi bod yn weithiwr achos Gofal a Thrwsio am 15 mlynedd ond mae gweithio dan bwysau ysbyty aciwt yn wahanol. Roedd ein gwasanaeth wedi helpu cleifion i fynd allan o'r ysbyty yn y gorffennol ond roeddem bob amser yn aros am atgyfeiriad ac er ein bod yn hyrwyddo ei hunain i dimau prysur, haen rota, roedd cyfathrebu'n cymryd mwy o amser. Mae bod yn rhan o ddiwylliant GIG a thîm cynllunio rhyddhau ond gydag arbenigedd anfeddygol yn dod â buddion go iawn.

Mae gen i fynediad i gleifion hŷn, eu teuluoedd neu ofalwyr yn gynnar iawn yn ystod rowndiau ward, ac felly rwy'n medru datrys problemau'n gyflym a chael mynediad i'w cartref heb oedi. Rydym wedi medru datrys cynifer o broblemau a fyddai wedi gohirio rhyddhau diogel, rhai ohonynt ond yn dod i'r amlwg yn ystod sgysiau yn hytrach na gwneud cais amdanynt heb atgyfeiriad. Mae cyflymder yn fater enfawr i adnoddau GIG ac rwy'n clywed cynifer o sylwadau cadarnhaol am ein gallu i wella llif cleifion sy'n gwella ysbryd staff GIG. Mae gennym gynllun peilot pwysau argyfwng Damweiniau ac Argyfwng newydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac o fewn 2 funud a thro fer roeddwn yn ymwneud â datrys mater a helpodd i ddatrys tagfa a gwella profiad cleifion”.

**Meinir Woodgate, Uwch Weithiwr Achos Ysbyty,  
Gofal a Thwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr**



# Astudiaeth 1

Mae Mrs X yn 84 oed ac yn byw ar ben ei hun. Cafodd ei derbyn i Ysbyty Tywysoges Cymru ar ôl syrthio yn ei gardd. Yn anffodus, bu ar y llawr am 5 awr cyn i gymydog ddod o hyd iddi a galw am ambiwlans. Cafodd gwasanaeth Adre o'r Ysbyty atgyfeiriad gan y Therapydd Galwedigaethol yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn gofyn am ganllaw cydio wrth ochr toiled Mrs X ac asesiad Llinell Bywyd Teleocal. Ni allai Mrs X fod wedi mynd adre heb gael hyn yn eu lle.

Ymwelodd y Gweithiwr Achos Ysbyty â Mrs X ar y ward o fewn yr awr a threfnu i'r Swyddog Diogelwch Cartref gwrrd â merch Mrs X yn y cartref y bore dilynol i osod y canllaw cydio a Teleofal. Fel canlyniad i'r gwasanaeth Adre o'r Ysbyty, gallodd Mrs X fynd adre o'r ysbyty 4-7 diwrnod ynghynt nag a ddisgwyliid fel arfer.

Ar ôl iddi fynd adre, ymwelodd Gweithiwr Achos yr Ysbyty â Mrs X yn ei chartref i gynnal asesiad llawn. Fel canlyniad i'r ymwelwyd sylweddolwyd fod Mrs X yn ei chael yn anodd defnyddio'r bath a mynd i'r ardd oherwydd y stepiau. Roedd hefyd yn cael problemau gyda'i gwresogi, roedd ei boeler dros 10 oed ac yn aneffeithiol. Cwblhawyd gwiriad budd-daliadau llawn a chanfuwyd nad oedd Mrs X yn derbyn yr holl hawliau budd-dal yr oedd ganddi hawl iddynt.

## Fel canlyniad i'r gwasanaeth adre o'r Ysbyty, cafodd Mrs X y gefnogaeth ddilynol:

- Cyfeirio at Age Conencts, Cymdeithion Cymunedol a Gwasanaeth Cludiant Cymunedol
- Cymorth i gael Bathodyn Parcio Glas i'r Anabl
- Cymorth i gofrestru gyda'r Cynllun Cymorth Sbwriel
- System Llinell Bywyd Teleofal
- RRAP ar gyfer canllaw cydio
- Grant Byw Annibynnol ICF ar gyfer ystafell wlyb
- Grant Cymorth Cartrefi Iach ar gyfer canllaw ar y stepiau, goleuadau diogelwch a chanfyddwr carbon monocsid
- Grant Presgripsiwn Cartrefi Cynnes

### Budd cost

Rhyddhau o ysbyty -	
Cost gwely ysbyty 7 diwrnod	£2,450
Cost ymyriad gwasanaeth Adre o'r Ysbyty	£450

**Osgoi cost** £2,000

### Atal

Cost gofal ôl-rhyddhau, adsefydlu, codwm cymhleth bellach, ansawdd bywyd	£171,908
Cost gwaith ymyrryd	£8,400

**Osgoi cost** £163,508



# Astudiaeth achos 2

Cyfeiriwyd Mr J at y gwasanaeth Adre o'r Ysbyty yn ystod y rownd wardiau. Mae'n 87 oed ac yn byw ar ben ei hun heb unrhyw berthnasau'n byw'n lleol. Mae'n dioddef gydag arthritis yr asgwrn cefn, emffysema a chyflwr calon. Cafodd ei dderbyn i Ysbyty Tywysoges Cymru yn dilyn plwc difrifol o'r fogfa yn ystod y nos.

Roedd Mr J i fod i gael eu ryddhau o'r ysbyty y trannoeth ond roedd yn methu dringo'r grisiau yn ei gartref yn ddiogel. Cyfeiriodd Therapydd Galwedigaethol yr Ysbyty at y gwasanaeth Adre o'r Ysbyty am reilen grisiau a Teleofal i alluogi rhyddhau diogel. Gosodwyd y rheilen y prynhawn hwnnw a Teleofal y bore trannoeth. Dychwelodd Mr J adref fel y bwriadwyd.

O fewn 2 ddiwrnod ymwelodd Gweithiwr Achos yr Ysbyty â Mr J yn ei gartref a chynhaliodd asesiad llawn Cartrefi Iach. Cwblhawyd gwiriad budd-daliadau llawn a chyflwynwyd cais am Lwfans Gweini yr un diwrnod. Yn dilyn cymeradwyo'r cais am Lwfans Gweini, cyflwynwyd ceisiadau a gymeradwywyd am Warrant Pensiwn Credyd a Budd-dal Treth Cyngor. Fe wnaeth y Gweithiwr Achos hefyd ddynodi fod Mr J yn cael trafferthion yn mynd i mewn ac allan o'r bath. Trefnodd i'r Therapydd

Galwedigaethol Cymunedol i gynnal asesiad llawn a chyflwynwyd argymhellion am grant awdurdod lleol i ddarparu cawod mynediad gwastad.

Oherwydd y newidiadau yn ei fudd-daliadau, a drefnwyd gan Weithiwr Achos yr Ysbyty, cymhwysodd Mr J am grant llawn. Gosodwyd y gawod o fewn 6 wythnos ac mae Mr J wrth ei fodd gyda'r canlyniad. Mae'n teimlo'n fwy annibynnol ac nid yw mwyach yn dibynu ar ofalwyr am gefnogaeth gyda'i anghenion gofal dyddiol. Yn ychwanegol mae ei incwm wedi cynyddu gan £252 yr wythnos sy'n galluogi Mr J i adael y gwres ymlaen am fwy o amser ac i dalu am dacsis i ymweld â ffrindiau a pherthnasau. Mae'r Teleofal yn rhoi tawelwch meddwl i Mr J a'i deulu bod cymorth argyfwng 24 awr ar gael.

## Budd cost

Rhyddhau o ysbyty -	
Cost gwely ysbyty 7 diwrnod	£2,450
Cost ymyriad gan y gwasanaeth Adre i'r Ysbyty	£450
<b>Osgoi cost</b>	<b>£2,000</b>

## Ataliaeth

Cost gofal ôl-ryddhau, gofal, adsefydlu, cwmpiad cymhleth pellach, aildderbyn, ansawddd	£171,908
Cost gwaith ymyriad	£2,450
<b>Osgoi cost</b>	<b>£169,458</b>

# Adre o'r Ysbyty 2016-17



Cleifion a helpwyd  
**1,272**

Oedran cyf.  
**78**

**98%**  
gyda chyflwr cronig

## 1,024 neu 80%

cleifion wedi'u helpu a chefnogi i'w rhyddhau'n ddiogel o ysbyty



Gwella ansawdd  
bywyd

**100%**

\*arolwg claf/cleient

## 1,434

swydd wedi'u cwblhau, cyfanswm gwerth

## £510,000



Diogelwch cartref

## 578 falls

atal cwmpiad

## 144 o gleifion

helpwyd i gael  
budd-daliadau gwerth

## £341,557 y flwyddyn

## 401 claf

wedi cael asesiad  
Cartref Iach



## 412 claf

wedi cael pecyn Teleofal i  
wella eu diogelwch personol



**Gostwng amser aros**  
am Aseiad ThG Cymunedol  
i 110 claf/cleient

Cyflymder cyfartalog gwaith  
Swyddog Diogelwch Cartref



## 1.5 diwrnod

“Barn” partneriaeth yn y Tîm Rhyddhau - arbed **rhwng 4-7 diwrnod gwely** am bob claf a ryddhawyd drwy Adre o'r Ysbyty





# Adborth Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Arolwg dienw o staff Ysbyty Tywysoges Cymru yn 2017

“Mae'r gwasanaeth cynhwysfawr y mae Gofal a Thrwsio yn ei ddarparu yn hwyluso pontio llyfn o'r ysbyty i'r cartref, gan y cyfnod maent yn aros yn yr ysbyty ac atal pobl rhag gorfod mynd yn ôl i ysbyty”.

“Mae ein partneriaeth gyda Gofal a Thrwsio yn golygu y gall ein hasesiadau a'n cynllun triniaeth wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Mae'n fy ngalluogi i ofalu mewn ffordd fwy holistig.”



“Byddai effaith sylweddol ar ansawdd y gwasanaeth y gallaf ei ddarparu o fewn fy maes arbenigol onibai am y gwasanaeth adre o'r Ysbyty”.

“Mae cael gweithiwr achos dynodedig o fewn amgylchedd yr ysbyty hefyd wedi cyflymu yr ymateb i holiadau sy'n hanfodol wrth weithio gyda llwyth achos cyflym gyda chleifion gyda chyflyrau sy'n cyfyngu bywyd”.

“Mae'r gweithiwr achos yn effeithiol iawn wrth fy hysbysu pan mae gwaith ar y gweill, sy'n galluogi cynllunio rhyddhau amserol”.

# Pam fod tai mor bwysig i ddeilliannau iechyd?

Cydnabyddir yn eang fod amgylchedd byw yn cael effaith sylweddol ar gyfle iechyd a llesiant pobl hŷn. Amcangyfrifodd y King's Fund fod tai gwael yn costio £1.4 biliwn i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) wedi amcangyfrif fod £67 miliwn o'r gost hon i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.



“Mae'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio yn hanfodol i'n hymyriad; mae gan y gwasanaeth rôl gyfannol wrth ein galluogi i ryddhau pobl yn effeithiol ac yn ddiogel adre o'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth cynhwysfawr y mae Gofal a Thrwsio yn ei ddarparu yn hwyluso pontio lyfn o'r ysbyty i'r arfer, gan ostwng hyd arhosiadau mewn ysbyty ac atal pobl rhag gorfod dychwelyd.”

**Neil Abraham, Rheolwr ThG Integredig, Gwasanaethau Cymdeithasol**

“Yn Uned Ddydd Pendre (clinic Cwmpyiadau) cawn atgyfeiriadau gan ffynonellau lluosog o fewn yr ysbyty ac o fewn gofal sylfaenol gan feddygon teulu ar gyfer cleifion sy'n fregus, llesg ac yn syrthio.

Daw ein cleientiaid i fewn a chael asesiad holistig. Mae'r cleifion yn ymweld â ni o fewn yr ysbyty ac er ein bod yn ceisio adeiladu darlun o'r hyn sy'n digwydd adref, ni allwch gael asesiad cywir o sut maent yn ymdopi nes ewch i mewn i gartref rhywun.

Rydym wedi datblygu perthynas ardderchog gyda'r gwasanaeth Adre o'r Ysbyty ac er eu bod yn dîm bach, mae eu hymateb bob amser yn gyflym iawn”.

**Helen Evans, Rheolwr Uned Dydd Feddygol Pendre**

“Does gennym ni ddim y gwasanaeth ymatebol sydd gennym nawr. Mae pethau'n hollol wahanol erbyn hyn. Fe allwn ni ryddhau o fewn 24/48 awr ac mae hynny oherwydd y gall Teleofal fod yn ei le o fewn 24/48 awr os oes angen. Cyn gwasanaeth Gofal a Thrwsio roeddem yn edrych am aros wythnos, os nad mwy. Rydym wedi cwtogi'r amser hwnnw'n fawr.

Mae Budd-daliadau Lles yn beth mawr arall. “Sut fyddaf yn talu am fy ngofal?” Dyw ein cleifion ddim eisiau derbyn help bob amser oherwydd eu bod yn poeni faint fydd yn ei gostio iddynt.

Does dim angen i bobl hŷn fod yma yn yr ysbyty, dim pan mae ffliw, dim pan mae niwmonia, nid dim ond lle mae'r holl germau eraill yn mynd o gwmpas. Os cânt eu gadael, gallwch warantu o fewn 1 wythnos na fyddant yn mynd drwy'r drws yna. Mae ganddyn nhw rywbeth, fe fydd ganddynt haint, maent yn ôl gwrth fiotig ac mae hynny'n digwydd dwy'r amser. Maent yn cael un peth ac mae'n eu dal yn ôl. Pan maent yn feddygol ffit, mae angen iddynt fynd adre. Dyna lle byddwch yn gwella. Rydych mewn ysbyty i gael eich trwsio ond ewch adre i ddod yn iach.”

**Sharman Williams, Trefnydd Cefnogaeth Adre,  
Tîm Adnoddau Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr**



“Un o’r pethau a wnaeth gymaint o argraff arnom ni oedd pa mor gyflym y gallwn gael addasiadau wedi’u gorffen yng nghartrefi ein cleifion. Mae hyn yn ein galluogi i hwyluso rhyddhau rhywun yn brydlon, cael cleifion yn ôl i’w hamgylchedd cartref eu hunain. Yn ei dro, mae hyn yn hwyluso llif cleifion drwy’r ysbyty.

Gall gymryd hyd at 7 i 10 diwrnod i gychwyn, gweithredu a chwblhau atgyfeiriad. Nawr, gan weithio gyda’r gwasanaeth Adre o’r Ysbyty, gellir gwneud hynny o fewn 24 i 48 awr os oes angen.

Mae gweithio yn yr adran argyfwng a wardiau meddygol aciwt yn golygu fod angen i offer ac addasiadau ar gyfer ein cleifion gael eu gwneud cyn gynted ag sy’n bosibl. Rydym yn gadael i Gofal a Thrwsio wybod y dyddiad pan ragwelwn y caiff claff ei ryddhau fel y medrant ddechrau ar y gwaith neu addasiadau sydd eu hangen ac yn aml caiff hyn ei wneud o fewn 24-48 awr.

Os gallwn hwyluso rhyddhau cyflym adre o’r ward, mae’n golygu y gall cleifion eraill gael eu trosglwyddo o’r adran argyfwng i’r ward ac o’r gymuned i’r adrannau argyfwng. Heb hynny byddai cefnlwyth enfawr wrth y drws blaen gyda chleifion yn aros

i gael eu gweld mewn adrannau argyfwng ac yn aros yn yr adran argyfwng am wely ysbyty ar y ward, a dyw hynny ddim yn dda ar gyfer gofal cleifion na phrofiad cleifion.

Mae unrhyw un sy’n dod i ysbyty teimlo’n agored i niwed ac mae llawer o bethau’n mynd allan o’ch rheolaeth. Mae cael Therapydd Galwedigaethol penodol a medru cael sgwrs yn yr ysbyty gyda’n hunain a hefyd gyda’r bobl sy’n mynd i wneud yr addasiadau, yn rhoi hyder a rheolaeth i bobl i ddweud ‘ie, dyna’r hyn rydw i eisiau’ neu ‘na, nid dyna’r ydw i eisiau’. Mae’n rhoi’r hyder i mi wybod fod ganddynt berson dilys yn mynd i’w cartref i wneud y gwaith sydd ei angen. Allwch chi ddim bychanu gwerth hynny.

Cyn i’r gwasanaeth Adre o’r Ysbyty Gofal a Thrwsio gael ei leoli yn yr ysbyty, roedd bob amser lais cyfeillgar ar ben y ffôn ond does dim byd fel cael sgwrs wyneb i wyneb gyda rhywun bob dydd.’

**Rachael Gdesis-Evans, Therapydd Galwedigaethol Arweiniol Lleoliad ar gyfer Ysbyty Tywysog Cymru**



**Bob amser yma i helpu**

[Stori Ddigidol ‘Adre o’r Ysbyty’ Pen-y-bont ar Ogwr](#)





**Care & Repair**  
**Gofal a Thrwsio**

[www.careandrepair.org.uk](http://www.careandrepair.org.uk)

dewch o hyd i ni ar



**Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr**

**01656 646755**

**I gysylltu â'ch Asiantaeth Gofal a Thrwsio Leol**

**0300 111 3333**

**Care & Repair Cymru**

**029 2010 7580**

Mae'r gwasanaeth hwn yn ddibynnol ar drefniadau cyllid blynyddol. Nid yw'r tybiaethau osgoi cost yn deillio o bartneriaid GIG lleol ond mae'n defnyddio ymchwil gan NICE, Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, (PSSRU), Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi (CSP) ac Age UK.

.Gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yr wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir. Nid yw Care & Repair Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am gamgymeriadau neu wallau.

Cyhoeddwyd 2018